

Cofnodion cyfarfod 13/12/2018

Presennol: Y Maer Sharon Evans, Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Sue Davies, Rhys Evans, Ivora Jones, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, Edith Roberts

Cynghorydd Dilwyn Morgan, Lis Puw (*Clerc*).

1. **Croesawyd pawb gan y Maer** ac estynnodd groeso i Arwel Morris a oedd yn dymuno rhoi gwybodaeth ar drefniadau'r Triathlon. Derbyniwyd Ymddiheuriadau Dilys Evans, Carol Rowlands, John C Williams.
2. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiadau o fuddiant ym mater y Triathlon (Rhif 4) gan Sharon W Evans a Tony Parry, a gadawodd y ddau'r cyfarfod cyn y drafodaeth.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 1/11/18.
4. **Materion y Clerc:** Trefniadau Triathlon 2019: Darllenwyd neges e-bost gan Heledd Roberts o Grŵp Busnesau'r Bala. Roedd y neges yn annog cefnogaeth i'r Triathlon. Dywedodd Arwel Thomas, Parc Cenedlaethol Eryri, fod y dyddiad ar ddiwedd Mehefin yn anodd i'r Parc Cenedlaethol oherwydd bod digwyddiadau eraill ar y Llyn. Byddai penwythnos cyntaf Mehefin yn haws o lawer. Cyfeiriodd at fuddiannau defnyddwyr rheolaidd y llyn sydd yn talu am ei ddefnyddio. Dywedodd fod trefnwyr wedi cydweithio'n hapus gyda'r gwardeiniaid yn y gorffennol ond roedd gwendidau yn nhrefniadau'r llynedd a llawer o waith clirio. Y dyddiad ar ddiwedd Mehefin yw'r maen tramgwydd mwyaf.

Cafwyd trafodaeth helaeth ar y budd lleol. Cytunwyd i gefnogi'r Triathlon mewn egwyddor am eleni, ond i bwysu am newid y dyddiad i gychwyn Mehefin. Os nad yw hynny'n bosib eleni, yna bydd rhaid newid y dyddiad i gael cefnogaeth y Cyngor y flwyddyn nesaf. Anogwyd Parc Cenedlaethol Eryri i lunio Cytundeb gyda'r Trefnwyr i osgoi bod llanast ar ôl wrth y llyn. Cytunodd Dilwyn Morgan i drafod ymhellach gyda Grŵp Gweithgareddau Arbennig Gwynedd (SAG) i ymwneud yn fwy manwl gyda'r trefniadau ar gyfer trafnidiaeth ac i fonitro'n fanwl. Cytunodd Rhys Evans, Alun Price ac Eifion Roberts i fynegi barn y Cyngor yn y cyfarfod arbennig ar 19/12/18. Cytunwyd i adael y dewis o opsiynau amser cau'r ffyrdd i'r cynghorau cymuned, os bydd cytundeb i barhau, gan mai'r ardaloedd gwledig sy'n cael eu heffeithio fwyaf oherwydd cau'r ffyrdd.

5. **Toiledau Cyhoeddus:** Derbyniwyd cais gan Cyngor Gwynedd am gyfraniad ariannol i gadw toiledau'r Grŵn ar agor. Cytunwyd mewn egwyddor ond galwyd am gyfarfod rhwng swyddogion Gwynedd, aelodau o'r Cyngor Tref a chynrychiolwyr Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf i wyntyllu
 - Y telerau
 - Y posibilrwydd o redeg y toiledau'n effeithiol yn lleol
 - Y grant drafnidiaeth a ffynonellau incwm eraill

6. **Materion Cyllid:** Cytunwyd i wneud taliadau'r mis
7. **Gohebiaeth:** Derbyniwyd gwybodaeth a chytunwyd i drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf

Dyddiad cyfarfod nesaf: 10/1/19